

At ddefnydd y swyddfa'n unig: **IMV001**

Adolygwyd gan: **SW/RC/CT**

Dyddiad: **06/21**

Disgrifiad Swydd Gwirfoddolwr

Lleoliad y swydd:	Symudol
Yn atebol i'r:	Cydlynedd Gwirfoddolwyr a Cyfaill Gwaith
Ymrwymiad amser:	I'w gytuno



Pwrpas/Crynodeb o'r rôl:

Cefnogi tenantiaid Cartrefi Conwy a phobl yng Nghonwy sydd angen cymorth ychwanegol yn y cartref. Bydd y gefnogaeth yn amrywio o wasanaeth cyfeillio sy'n gallu lleihau unigedd ac ynysu, mynd i apwyntiadau Meddyg Teulu, helpu gyda thasgau o amgylch y tŷ, mynychu digwyddiadau neu alwad ffôn yn ddyddiol.

Sgiliau hanfodol ar gyfer y rôl:

- ✓ Sgiliau cyfathrebu da
- ✓ Natur gyfeillgar a chroesawgar

Sgiliau dymunol:

- ✓ Profiad o wirfoddoli gydag aelodau o'r cyhoedd

Disgrifiad o dasgau :

Bydd y tasgau yn amrywio yn dibynnu ar eich sgiliau a'ch diddordebau, ynghyd ag anghenion y tenant yr ydych yn eu cefnogi. Gallent gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Cwmniaeth
- Darparu cludiant i apwyntiadau
- Mynd gydag unigolyn i siopa / ar ymweliadau
- Mynd â'r ci am dro / gofalu am anifeiliaid anwes
- Helpu i wneud galwadau ffôn / talu biliau gwasanaeth
- Cefnogaeth ar ôl profedigaeth
- Cwmni i fynd i'r sinema / theatr ac ati
- Cwmni tra bo gweithiwr yn y tŷ
- Cofnodi os oes angen unrhyw gymorth pellach
- Cofnodi gwybodaeth fel bo'r angen

Hyfforddiant a chymorth

- ✓ Cyfarfod sefydlu i'r sefydliad
- ✓ Cyfrannu at y Rhaglen Gwobrau Gwirfoddol
- ✓ Hyfforddiant llawn ar holl agweddau'r rôl:

Bydd pob gwirfoddolwr yn cwblhau Rhaglen Hyfforddiant Fi Annibynnol (e-ddysgu ar-lein a hyfforddiant achrededig) a fydd yn cynnwys:

- Diogelu Plant ac Oedolion Diamddiffyn
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
- Sgyrsiau Anodd
- Cyfrinachedd
- Ffiniau proffesiynol
- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Cymorth Cyntaf
- Codi a Symud yn Gorfforol

Ar ôl i chi gwblhau rhaglen Fi Annibynnol fe gewch Dystysgrif i ddangos eich bod yn Wirfoddolwr Fi Annibynnol.

Ad-dalu treuliau:

Bydd mân dreuliau yn cael eu had-dalu fel a ganlyn:

- ✓ Costau teithio 45c y filltir o'r cartref i'r man gwirfoddoli
- ✓ Ad-delir costau cludiant cyhoeddus ar ôl derbyn tocyn dilys
- ✓ Hyd at £7.50 y dydd i dalu am bethau fel coffi ac ati, wrth fynd ag unigolyn allan ar gyfer gweithgareddau cyfeillio (bydd angen derbynebaw i hawlio'r costau hyn)

Sut i wneud cais :

- ✓ Ebost richard.chance@creatingenterprise.org.uk neu ffonio 01492 588 980
- ✓ Mynegwch ddiddordeb yn y swydd sydd o ddiddordeb i chi

Llofnod y Rheolwr Atebol:

Dyddiad: